## Comisiwn y Cynulliad
## Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 8c)**
**Cynllun Paratoi Cyfrifon**

**Dyddiad: 28 Ionawr 2010**
**Amser: 16:00**
**Lleoliad: Ystafell Gyfarfod 4B**
**Enw a rhif cyswllt yr awdur: Nicola Callow, Pennaeth Cyllid, estyniad 8054**

# Cynllun Paratoi Cyfrifon ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, diwedd blwyddyn 2009-10

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.*

**1.0 Diben a chrynodeb o'r materion**

**1.1** Diben yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Comisiwn ystyried a chytuno ar ganllawiau diwedd blwyddyn ar gyfer gwariant Aelodau'r Cynulliad.

**1.2** Y bwriad yw rhoi cymorth i Aelodau, ynghyd ag elfen o hyblygrwydd, ond gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael i alluogi i gyfrifon y Cynulliad gael eu harchwilio a'u cyflwyno erbyn toriad yr haf.

**2.0 Argymhelliad**

**2.1** Gwahoddir y Comisiwn i gytuno ar y canllawiau fel y'u nodwyd yn y papur hwn.

**3.0 Trafodaeth**

**3.1** Gweler isod y cyngor arfaethedig y dylid ei roi i holl Aelodau'r Cynulliad:

**Dyddiadau cau ar gyfer hawliadau diwedd blwyddyn 2009-10**

**Mae'r gwaith bellach wedi dechrau i sicrhau bod cyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2009-10 yn cael eu cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2010. Mae'n rhaid i chi gynnwys gwybodaeth am eich gwariant yn y Cyfrifon ac, er mwyn sicrhau bod y Cyfrifon yn barod mewn pryd, mae angen y wybodaeth hon arnom ni gennych chi erbyn rhai dyddiadau penodol. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, llwyddodd y Comisiwn i gyflwyno ei gyfrifon cyn toriad yr haf. Gwerthfawrogir eich cymorth yn hyn o beth.**

**Mae cyngor a chymorth ar gael gan John Chick a'r Tîm Cymorth Busnes i'ch helpu i reoli eich gwariant o fewn y gyllideb yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn ariannol.**

**Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r gofynion o ran cyflwyno gwybodaeth, ynghyd â'r dyddiadau y mae angen i chi roi'r wybodaeth i ni.**

| Dyddiad Targed | Camau i'w cymryd gan Aelodau: |
|---|---|
| Erbyn 12 Mawrth 2010 | Rhoi gwybod i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau am unrhyw newidiadau i gyflogau/oriau staff cymorth ar gyfer eu talu (ee goramser neu daliadau bonws) yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10. |
| Erbyn 31 Mawrth 2010 | Sicrhau bod gennych ddigon o arian ar gael yn eich lwfansau ar gyfer 2009-10 i dalu am unrhyw hawliadau sydd heb eu talu. |
| Erbyn 30 Ebrill 2010 | Cyflwyno hawliadau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a gafwyd yn y cyfnod cyn diwedd mis Mawrth mewn perthynas â'ch lwfansau ar gyfer 2009-10.<br><br>Canfod unrhyw eitemau yn yr hawliadau sy'n berthnasol i'r cyfnod o 1 Ebrill 2010 ymlaen. Byddwn yn cyfrif y rhain fel rhagdaliadau. |

**Os oes angen rhagor o gymorth ar unrhyw agwedd ar y canllawiau hyn ar Aeldoau, cysylltwch â John Chick, Pennaeth y Tîm Cymorth Busnes i Aelodau (estyniad 8581).**

**3.2 Mae'r amserlen arfaethedig isod yn nodi'r dyddiadau ar gyfer anfon y cyngor, atgoffa Aelodau a'r rhybudd terfynu:**

- **1 Chwefror 2010 – anfon y canllawiau at Aelodau a Staff Cymorth gan y Pennaeth Cyllid (yn cynnwys enghreifftiau)**
- **1 Mawrth 2010 – anfon nodyn atgoffa yn enw William Graham.**
- **29 Mawrth 2010 – anfon nodyn atgoffa yn enw Claire Clancy.**
- **1 Mehefin 2010 – anfon rhybudd terfynu gan y Pennaeth Cyllid.**